**Helo a chroeso i rifyn mis Awst Newyddion y DBS.**

Y mis yma, rydym yn cyflwyno ein fideos YouTube Gwasanaeth Diweddaru i'ch sgriniau cyfrifiadur. Rydym wedi bod yn brysur yn gweithio ar y fideos hyn (un wedi ei anelu at ymgeiswyr ac un wedi ei anelu at gyflogwyr) i ddangos i chi sut gall y Gwasanaeth Diweddaru weithio i chi. Rydym nawr yn barod i ddangos y cynnyrch terfynol i chi, sydd ar gael i'w weld yma (cyflogwyr) ac yma (ymgeiswyr).

Mae'r fideos yn rhywbeth yr wyf yn falch iawn ohonynt fy hun. Dyma'r tro cyntaf i ni wneud y fath beth ac mae'n cynrychioli newid yn sut yr wyf yn ein gweld yn gwneud pethau yn y dyfodol agos. Mae'n ein symud ni fel sefydliad ychydig yn agosach at fod yn sefydliad 'digidol'.

Maent yn cynnwys pobl go iawn (dim actorion hyfforddedig i ni!) yn disgrifio beth fydd y gwasanaeth yn wneud iddynt ac, yn fideo'r cyflogwyr, sut y bydd yn fanteisiol iddynt a defnyddwyr eu gwasanaeth.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n gwirfoddolwyr fideo YouTube am gymryd amser yn eu diwrnod prysur i siarad am ein gwasanaeth a chofnodi eu barn yn onest.

Oddi ar y camera, mae hyn yn rhywbeth yr hoffem i chi ddal i'w wneud hefyd. Mae'n bwysig dal ati i siarad am y Gwasanaeth Diweddaru a'r newidiadau a welsom yn dod i mewn gyda hyn.

Hefyd, y mis yma rydym yn darparu manylion am y ffordd orau o danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru. Rydym wedi clywed fod rhai ymgeiswyr yn cael anhawster tanysgrifio o fewn y ffenestr 14 diwrnod – gobeithio y bydd ein gwybodaeth ddiweddaraf yn helpu i ddatrys hyn.

Mae cyfathrebu yn allweddol i gael pethau'n iawn – a'u cadw'n iawn – felly, os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth, daliwch i gyfeirio at yr offer cyfathrebu sydd ar gael i chi a daliwch ati i siarad: gyda ni, gyda'ch cydweithwyr a gyda'ch ymgeiswyr.

Adriènne Kelbie

Prif Weithredwr

---

**Y Gwasanaeth Diweddaru: datblygiadau diweddaraf**

Mae 2013 yn profi i fod yn amser cyffrous iawn i ni wrth i ni gymryd camau mawr yn y cyfeiriad digidol, ac rydych wedi ymuno â ni ar y daith hon.

Un cam enfawr ar ein rhan ni yw lansio'r Gwasanaeth Diweddaru; sydd newydd gyrraedd ei garreg filltir bwysig gyntaf o 10,000 o danysgrifwyr. Diolch yn fawr iawn i chi am ein helpu i gyrraedd y swm trawiadol hwn. Rydych wedi helpu trwy ledaenu'r gair ymysg eich cyflogeion a chleientiaid ynglŷn â'r manteision posibl iddynt (ac i chi!) o ddefnyddio'r gwasanaeth, felly daliwch ati i wneud beth ydych yn ei wneud a'n helpu i ddal i hybu'r ffigwr hwn.

Darllenwch ymlaen i gael gwybod mwy am ein fideos YouTube newydd a sut y gallwch annog ymgeiswyr i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru ar y cyfle cyntaf, gan ddefnyddio eu cyfeirnod ymgeisio.

Gwasanaeth Diweddaru nawr ar YouTube

Mae rhai ohonoch wedi gweithio gyda ni i gynhyrchu fideos YouTube a phosteri fydd yn helpu ymgeiswyr, eich cydweithwyr a sefydliadau eraill i ddeall manteision y gwasanaeth Diweddaru newydd.

Bu Tricia Buckle, y Gymdeithas Epilepsi, Barbara Ball, Gwasanaeth Cynghori Diogelu Plant yr Eglwysi, Jill Lane, The Oldershaw Academy, a dau ymgeisydd, Glenn Walsh ac Anne Kipping yn ddigon caredig i gytuno i adael i ni ffilmio eu barn a'u profiadau o wasanaeth gwirio'r DBS, a'u hymateb i sut allai'r Gwasanaeth Diweddaru fod yn fanteisiol iddynt a'u sefydliadau.

Gan gydweithio, rydym wedi cynhyrchu dau fideo YouTube; sy'n arddangos y gwasanaeth newydd. Crëwyd y fideos i ysgogi diddordeb, cael pobl i siarad a chyrraedd cynulleidfa ehangach.

I'w weld, cliciwch yma ar gyfer fideo'r ymgeisydd ac yma ar gyfer fideo'r cyflogwr.

Gobeithiwn y byddwch yn hoffi'r fideos cymaint ag ydym ni ac yn gweld eu bod yn cynnig disgrifiadau cwbl onest y bydd sefydliadau ac ymgeiswyr yn gallu uniaethu â nhw.

Ein her fwyaf nawr yw cyrraedd y rhai fydd yn elwa fwyaf o'r gwasanaeth - ein hymgeiswyr - ac rydym angen eich cymorth chi. Rydym angen i gymaint o bobl â phosibl weld, hoffi a rhannu'r fideos a chyrraedd y gynulleidfa fwyaf posibl.

Efallai eich bod yn ystyried sut y bydd hyn yn fanteisiol i chi – wel, wrth i fwy o unigolion ymuno, bydd mwy ohonoch yn gallu elwa ar Wiriadau Statws am ddim ac ar unwaith yn hytrach na gorfod talu am wiriadau cofnod troseddol newydd ac aros iddynt gyrraedd.

Os oes gennych chi neu'ch sefydliad gyfrif Facebook neu Twitter; os oes gennych eich blog neu wefan eich hun; neu unrhyw safle cyfryngau cymdeithasol arall, ewch i

weld y fideos a’u rhannu gyda’ch staff, ymgeiswyr, cleientiaid, ffrindiau, dilynwyr a darllenwyr.

Cymryd rhan:

- Ewch i’n gwefan, lawrlwythwch y posteri YouTube a’u gosod yn eich swyddfeydd, adrannau recriwtio, desgiau gwasanaeth ymgeiswyr ac ar eich gwefan.
- Ewch i YouTube a gwyliwch ddau fideo Gwasanaeth Diweddaru DBS.
- Rhannwch y fideos ar wefannau eich sefydliad a thrwy’ch cyfryngau cymdeithasol. Anogwch ymgeiswyr i ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru er mwyn i’ch sefydliad allu elwa o arbedion amser a chost.

---

**Ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru: y llwybr gorau i danysgrifio**

Rydym wedi derbyn adborth gan rai o’r ymgeiswyr oedd eisiau ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru yn defnyddio eu rhif Tystysgrif DBS, ond a oedd wedi methu gwneud hyn o fewn y cyfnod 14 niwrnod.

I gefnogi’ch ymgeiswyr a helpu osgoi’r broblem hon, gallwch roi cyfeirnod y cais iddynt. Yna gallant ddefnyddio hwn i danysgrifio i’r Gwasanaeth Diweddaru a dilyn trywydd eu cais ar-lein.

Mantais hyn yw y bydd y mwyafrif yn cael mwy o amser i ymuno a’u bod yn llai tebygol o golli’r cyfle i danysgrifio i’r gwasanaeth. Os byddant yn aros tan y bydd eu Tystysgrif DBS wedi ei chyhoeddi, dim ond cyfnod byr o 14 diwrnod sydd gan yr ymgeisydd i danysgrifio, gan ddechrau o’r dyddiad cyhoeddi a argraffwyd ar eu Tystysgrif DBS.

Os nad yw’n bosibl darparu cyfeirnod y cais, gallwch helpu ymgeiswyr trwy esbonio:

- Mai dim ond 14 diwrnod sydd ganddynt i danysgrifio o’r dyddiad cyhoeddi a argraffwyd ar y dystysgrif.
- Y gallant ddefnyddio olrhain ar-lein os oes ganddynt gyfeirnod y cais.

Gallant ein ffonio ar 0870 909 0811 i gael cyfeirnod eu cais neu eu rhif Tystysgrif DBS.

---

**Canllaw rhyngweithiol newydd.**

Mae ein tîm Hyfforddiant Cydlofnodwyr wedi bod yn darparu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddiant ledled Cymru a Lloegr am dros dair blynedd, wedi eu hanelu’n bennaf at Gydlofnodwyr newydd.

Fodd bynnag, ar ddechrau'r mis daeth ein rhaglen hyfforddiant i ben wrth i ni chwilio'n weithredol am ffyrdd newydd o'ch cefnogi i gwblhau'r ffurflen gais bapur yn gywir.

Rydym wedi bod yn casglu adborth gan fynychwyr  ein digwyddiadau hyfforddiant, ac fe ddywedodd dros 90% y byddent yn defnyddio e-ganllaw rhyngweithiol ar-lein.

Diolch am yr adborth gwych hwn! Gan ystyried eich barn, rydym wedi datblygu e-ganllaw i gymryd lle ein digwyddiadau hyfforddiant. Ar hyn o bryd rydym yn profi'r canllaw gyda Chydlofnodwyr newydd ac yn bwriadu ei rannu gyda chi yn fuan ar ein gwefan. Felly chwiliwch am ragor o fanylion ynghylch ble allwch chi ddod o hyd i'r ychwanegiad cyffrous hwn i'n stoc ddigidol yn ein rhifyn nesaf.

Mae'r penderfyniad i ddefnyddio dulliau electronig o ddarparu hyfforddiant yn cyd-fynd â'n Hegwyddorion hefyd; sef ymroddiad i gyflenwi gwasanaeth, ble fo'n bosibl, yn ddigidol yn ddiofyn.

Bydd yr e-ganllaw hwn hefyd yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr e-bulk gan fod yna rywfaint o ganllaw cyffredinol sy'n berthnasol i gwblhau ceisiadau e-bulk a phapur; er enghraifft, sut i gwblhau'r meysydd cyfeiriad os ydych chi'n fyfyriwr wedi cofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol. Fodd bynnag, mae'r canllaw wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer defnyddwyr ceisiadau papur gan fod e-bulk eisoes yn lleihau gwallau'n sylweddol trwy ddilysu systemau.

Meddai'r Rheolwr Hyfforddi, David Nield: “Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cymryd rhan wrth gynnal ein hyfforddiant yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Heboch chi, ni fyddem wedi gallu darparu ein sesiynau hyfforddi undydd i fwy na 10,000 o Gydlofnodwyr a gwirwyr hunaniaeth.

“Mae canlyniadau ein hyfforddiant yn brawf o'u gwerth gan fod Cydlofnodwyr wedi bod 50% yn llai tebygol o wneud gwall wrth gwblhau'r ffurflen gais o fewn tri mis i gwblhau cwrs. Ystyrir yr ystadegyn hwn yn erbyn y gyfradd dychwelyd gyfartalog ar gyfer ffurflen gais ar draws y rhwydwaith Cyrff Cofrestredig cyfan.

“Rydym yn falch iawn o gael rhoi gwybod i chi sut fydd ein e-ganllaw yn mynd â'n hyfforddiant i'r oes ddigidol, ac yn edrych ymlaen at roi gwybod mwy i chi amdano yn Newyddion y DBS y mis nesaf.”

Sylwer: Bydd ein gweithdai 'dyletswydd i gyfeirio' yn parhau fel y trefnwyd.

I'r rhai ohonoch sydd eisiau mwy o wybodaeth am y gweithdai hyn, cliciwch yma a mynd i'r dudalen 'digwyddiadau gwybodaeth cyfeirio'.

---

**A yw'ch manylion cofrestru wedi newid?**

Rhan bwysig o’n gwasanaeth yw gallu cyfathrebu’n uniongyrchol gyda chi a gwybod fod ein negeseuon yn cyrraedd eu targed arfaethedig – chi. Ni allwn wneud hyn os nad yw’ch manylion cofrestru yn gyfredol, a gallai hyn olygu nad ydych yn cael gwybod am faterion pwysig neu’n achosi oedi i’r gwasanaeth y gallwn ei ddarparu i chi.

O ganlyniad i gyfathrebu nifer o newidiadau pwysig i’n gwasanaethau, rydym wedi canfod nad yw rhai ohonoch wedi bod yn rhoi gwybod i ni am newidiadau i’ch manylion cofrestru.

Mae’n allweddol eich bod yn cadw’r manylion hyn yn gyfredol, ac yr un mor bwysig ein bod yn cael gwybod ar unwaith am unrhyw newidiadau i’r sefydliad cofrestredig, Prif Gydlofnodydd, neu fanylion cofrestru Cydlofnodydd yn cynnwys enw, cyfeiriad gohebu a manylion cyswllt.

Rydym hefyd angen cael gwybod os nad yw’r sefydliad, Prif Gydlofnodydd, neu Gydlofnodydd eisiau dal i fod wedi cofrestru gyda’r DBS.

Os bydd unrhyw elfennau o’ch cofrestriad yn newid, rhowch wybod i ni trwy lythyr ar bapur pennawd y cwmni, gan ddarparu’r wybodaeth ganlynol:

- Rhif Corff Cofrestredig
- Rhif a llofnod eich (prif) Cydlofnodydd
- Manylion y newid neu newidiadau - megis enw/cyfeiriad blaenorol a newydd y Corff Cofrestredig, y dyddiad pan fydd y newid yn effeithiol, ac enw a rhif cofrestru'r cydlofnodwyr a effeithir.

Os nad yw’r Prif Lofnodydd neu Gydlofnodydd ar gael, gellir derbyn llythyr gan gyfarwyddwr neu swyddog cyfatebol.

Anfonwch eich llythyr at:

Gwasanaethau Cwsmeriaid DBS

Blwch Post 110

Lerpwl

L69 3EF

Am ragor o wybodaeth, cymrwch olwg ar yr adran ‘newid eich manylion cofrestru’ ar ein gwefan yma.

Cofiwch: gallwch gofrestru ar gyfer ein cronfa ddata electronig yma er mwyn derbyn diweddariadau electronig ynglŷn â'r holl bynciau sydd o ddiddordeb i chi. Mae dros 18,000 ohonoch wedi cofrestru i dderbyn Newyddion DBS fel hyn – mae hyn yn newyddion gwych ac rydym yn falch iawn fod y gronfa ddata mor hawdd i'w defnyddio i chi. Mae'n cymryd llai na dau funud i gofrestru – does dim ond angen i chi roi gwybod i ni beth yw'ch enw, cyfeiriad e-bost a sector busnes a thicio'r blychau yr hoffech gael gwybod mwy amdanynt.